Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

18 Medi 2018

Annwyl Gadeirydd,

Ysgrifennaf atoch mewn perthynas ag ymchwiliad y Pwyllgor 'Statws y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru'.

Nid yw'r Gymraeg yn ystyriaeth benodol yng nghylch gorchwyl yr ymgynghoriad presennol ar y pwnc. Ysgrifennaf felly i annog y Pwyllgor i ymrwymo sylw penodol i'r mater mewn sesiynau tystiolaeth ar lafar yn dilyn derbyn y dystiolaeth ysgrifenedig.

Dau barth canolog i ffyniant y Gymraeg yw addysg a'r gweithle. Tra bod ein system addysg yn brif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg newydd, mae defnydd y Gymraeg yn y gweithle yn ffordd o godi statws yr iaith, ei normaleiddio fel iaith bob dydd, a chodi hyder ei siaradwyr. Dim ond trwy gyfuno cefnogaeth i'r Gymraeg mewn addysg ac yn y gweithle y bydd modd datblygu gweithlu medrus dwyieithog yng Nghymru.

Er hynny, gwyddom fod nifer sylweddol o siaradwyr Cymraeg yn colli eu sgiliau Cymraeg ar ddiwedd cyfnod addysg statudol. Yn amlwg, mae addysg ôl-16 - y cyfnod sy'n pontio'r byd addysg a'r byd gwaith - yn allweddol er mwyn sicrhau bod dysgwyr yn parhau i ddefnyddio, datblygu a manteisio'n llawn ar eu sgiliau Cymraeg. Gall rhaglenni fel Bagloriaeth Cymru, sy'n gosod cyflogadwyedd y dysgwyr wrth galon y ddarpariaeth, wneud cyfraniad pwysig at wireddu'r weledigaeth hon.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

O'r hyn y gwelaf, nid yw cylch gorchwyl yr ymgynghoriad presennol, na'r cwestiynau yn yr arolygon barn sydd ar gael ar wefan y Pwyllgor, yn cyfeirio at y Gymraeg yn benodol. Hoffwn annog y Pwyllgor felly i fanteisio ar y sesiynau tystiolaeth ar lafar er mwyn holi ymatebwyr am ystod o ddefnydd y Gymraeg ym Magloriaeth Cymru, agweddau tuag at fanteision neu anfanteision cwblhau'r fframwaith yn y Gymraeg; a ffactorau sy'n debygol o ddylanwadu ar yr agweddau hyn.

Byddai fy swyddogion yn croesawu'r cyfle i gyfarfod â'ch clerc i drafod agweddau penodol sy'n haeddu sylw. Er enghraifft, mae'n debyg bod problemau o ran argaeledd data am nifer a chanran dysgwyr sy'n cwblhau'r Fagloriaeth yn Gymraeg.

Hyderaf y bydd fy sylwadau uchod o ddiddordeb i chi, a gofynnaf yn garedig i chi eu hystyried wrth gynllunio'r sesiynau tystiolaeth ar lafar. Gofynnaf ichi gysylltu â Lowri Williams, Uwch Swyddog Polisi, lowri.williams@cyg-wlc.cymru os dymunwch drefnu cyfarfod.

Yn gywir

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg